
# Diane Dal-pra

Thema ganolog gwaith Diane Dal-pra yw ein perthynas ag eiddo. Y defodau a'r ofergoelion o amgylch gwrthrychau yr ydym yn berchen arnynt a sut maent yn ein hamlyncu ni a'n hunaniaeth yn ogystal â bod yn ffynhonnell cysur.



## Gweithgaredd Paentio Bywyd Llonydd

Paratowch fywyd llonydd o wrthrychau rydych chi'n hoff ohonyn nhw, gwnewch frasluniau a phaentiadau ohonyn nhw. Ceisiwch ddal personoliaethau'r gwrthrychau a'u cyfathrebu â'i gilydd.

**Cam 1 -** Casglwch wrthrychau rydych chi'n eu hoffi, neu sy'n golygu llawer i chi. Gallai'r rhain fod yn wrthrychau rydych chi'n eu cario, sydd gennych chi yn eich tŷ neu'n rhywbeth rydych chi'n ei wisgo. Beth sy'n eich denu atyn nhw?

**Cam 2 -** Gosodwch y gwrthrychau mewn gofod. Meddyliwch am yr hyn sy'n eich denu at y gwrthrychau hyn a sut gallwch chi ddangos hyn yn eich brasluniau a'ch paentiadau!

**Cam 3 -** Gwnewch frasluniau a phaentiadau o'r gwrthrychau. Ceisiwch ddangos eu personoliaethau a faint maen nhw'n ei olygu i chi yn eich paentiadau, gan ddefnyddio lliw a ble rydych chi'n eu gosod.

# Oren Pinhassi

Mae cerfluniau Oren Pinhassi yn archwilio’r berthynas rhwng y ffigwr dynol, natur a’r amgylchedd adeiledig. Maent wedi'u gwneud o dywod a phlaster, wedi'u haenu â llaw dros sgerbydau dur wedi'u weldio.



## Gweithgaredd Cerflunio Tywod

Creu cerfluniau tywod ar y traeth gan ddefnyddio deunyddiau a ddarganfuwyd! Meddyliwch am adeiladau a phobl, gan ganolbwyntio ar siapiau a gweadau y gallwch eu gweld.

**Cam 1-** Ewch i'r traeth neu rywle gyda thywod. Edrychwch o'ch cwmpas, pa siapiau allwch chi eu gweld mewn adeiladau, pobl a'r golygfeydd?

**Cam 2 -** Pa wrthrychau a defnyddiau sydd o'ch cwmpas? Allech chi ddefnyddio unrhyw un ohonyn nhw yn eich cerflun?

**Cam 3 -** Meddyliwch sut y gallwch chi ddod â'r siapiau, defnyddiau, gwrthrychau a gweadau hyn at ei gilydd mewn cerflun tywod. Dechreuwch gyda cherflunwaith syml ac ychwanegwch fanylion.

mostyn

# Gweithgareddau yn yr Oriel

## Beth allwch chi ei weld yn y celf?

Pa wrthrychau allwch chi ddod o hyd iddynt wedi'u cuddio yn y gweithiau celf?
Ydy'r siapiau yn eich atgoffa o rywbeth?

Defnyddiwch yr adnoddau ar ein Blwch Syniadau Mawr i arbrofi gyda ffyrdd y gallwch chi archwilio'r gweithiau celf yn yr oriel!

## Amser i fraslunio

Gwnewch frasluniau o'r gofod a chael eich ysbrydoli gan y gelf!

Defnyddiwch yr adnoddau sydd gennym ar ein Blwch Syniadau Mawr i greu ac ysbrydoli eich lluniau.

## Pos Chwilair

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | Y | S | U | R | Y | U | S | A | A | D | R | T | A |
| U | E | E | N | A | T | U | R | U | A | A | P | A | M |
| Y | U | A | D | A | I | T | N | E | A | P | T | S | G |
| G | W | R | T | H | R | Y | C | H | A | U | S | E | Y |
| A | U | A | B | R | E | G | U | S | R | C | A | R | L |
| C | E | R | F | L | U | N | I | A | U | G | G | T | C |
| B | B | P | L | O | D | A | I | N | Y | S | Y | C | H |
| Y | Y | T | U | E | E | D | R | A | H | S | C | U | E |
| W | U | U | A | S | A | N | H | T | R | E | P | H | D |
| Y | A | S | D | R | W | H | T | M | A | E | Y | D | D |
| D | B | S | O | S | Y | Y | R | Y | S | T | A | D | A |
| N | T | F | F | U | W | Y | E | A | C | N | U | A | L |
| U | I | Y | E | O | I | S | I | T | I | L | A | E | R |
| U | A | M | D | G | Y | U | Y | H | G | A | T | C | N |

CYSYNIADOL
NATUR
DEFODAU
GWRTHRYCHAU
PAENTIADAU
CERFLUNIAU
REALITI
AMGYLCHEDD
PERTHNASAU
BREGUS
CYSUR
BYWYD
TYWOD